**Gareth Morgans, B.Ed., M.Sc.**

**Prif Swyddog Addysg,**
**Adran Addysg a Phlant,**
Adeilad 2, Parc Dewi Sant,
Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin,
Sir Gaerfyrddin, SA31 3HB

**Chief Education Officer**
**Department for Education & Children,**
Building 2, St David's Park,
Jobs Well Road, Carmarthen,
Carmarthenshire SA31 3HB

| | |
|---|---|
| Gofynner am / Please ask for: | Gareth Morgans |
| Llinell Uniongyrchol / Direct Line: | *01267 246450* |
| E-bost Uniongyrchol / Direct E-mail: | EDGMorgans@sirgar.gov.uk |
| Dyddiad / Date: | 17-12-14 |

## Hysbysiadau Cosb

Mae'r llythyr hwn yn eich rhybuddio o'r bwriad i gyflwyno hysbysiadau cosb am absenoldebau heb eu hawdurdodi o ysgolion o Ionawr 2015.

Mae'r awdurdod lleol a'r consortiwm ERW yn credu bod unrhyw absenoldeb o'r ysgol, am ba bynnag reswm, yn andwyol i gyfleoedd bywyd hirdymor y plentyn, felly dylid ei osgoi ar bob cyfrif os yn bosib. Mae lleihau absenoldebau o ysgolion yn flaenoriaeth allweddol, yn lleol a chenedlaethol, oherwydd mae colli ysgol yn niweidiol i lefel cyrhaeddiad y disgybl, yn amharu ar drefn arferol yr ysgol, a gall olygu bod disgybl yn fwy agored i ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau ieuenctid.

Defnyddir hysbysiad cosb yn hytrach nag erlyniad gyda'r nod o geisio sicrhau gwelliant ym mhresenoldeb y disgybl.

Gellir cyflwyno hysbysiad cosb yn sgil cais gan yr ysgol, yr heddlu, neu gan Wasanaethau Cynhwysiant Addysg yr awdurdod lleol, mewn perthynas ag absenoldeb heb ei awdurdodi. Os bydd y rhiant/gofalwr yn darparu rheswm dros yr absenoldeb, yna penderfyniad y pennaeth fydd derbyn, neu beidio â derbyn hwnnw, gan sicrhau bod y gofrestr wedi'i marcio'n briodol.

Os gwneir cais am hysbysiad, bydd y rhiant/gofalwr yn cael llythyr rhybudd yn rhoi 15 diwrnod iddyn nhw ddarparu tystiolaeth i'r awdurdod lleol nad oes modd cyfiawnhau'r absenoldebau anawdurdodedig, ac y dylid diwygio'r gofrestr. Os ydy'r absenoldebau anawdurdodedig o ganlyniad i gymryd gwyliau yn ystod amser ysgol, yna ni chyflwynir rhybudd. Noder nad oes yna gyfyngiad ar nifer y rhybuddion ffurfiol y gellir eu cyflwyno.

Os na fydd presenoldeb y disgybl yn gwella, yna cyhoeddir hysbysiad cosb. Bydd taliad o £60 yn ddyledus yn y lle cyntaf, a bydd hwnnw'n codi i £120 os na chaiff ei dalu'n brydlon. Os na thelir y gosb, yna bydd yr awdurdod lleol yn ystyried cymryd camau i erlyn y rhiant/rhieni am y drosedd wreiddiol, sef 'methu â sicrhau bod disgybl cofrestredig yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd' dan Adran 444 (1) neu (1A) o Ddeddf Addysg 1996.

Cofiwch, os oes yna resymau dros absenoldeb eich plentyn o'r ysgol, yna gallwch ofyn am gymorth ac arweiniad gan staff yr ysgol. Dylech ofyn cyn i'r absenoldeb fynd yn broblem.

Yn ddiffuant,

EDGMorgans

Gareth Morgans, Pennaeth Gwasanaethau Addysg